## Polisi Cyhoeddi CBAC

### Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth isod yn dangos pa bryd y bydd dogfennau arholiadau CBAC a WJEC Eduqas ar gael i ganolfannau arholiadau cofrestredig ac i aelodau o'r cyhoedd. Mae'r polisi yn ymdrin â'n holl gymwysterau. Bydd rhywfaint o oedi rhwng dyddiad darparu dogfennau i'r canolfannau ar ein Porth (gwefan ddiogel) a dyddiad eu darparu ar y wefan gyhoeddus. Gwneir hyn er mwyn i ysgolion a cholegau allu defnyddio'r rhain fel adnoddau mewnol cyn iddyn nhw fod ar gael i bawb, er enghraifft i gefnogi gwaith paratoi ymgeiswyr at arholiadau.

Ar ôl eu cyhoeddi, bydd y dogfennau ar gael am hyd oes y fanyleb.

### Papurau Cwestiynau a Chynlluniau Marcio

| Cyfres Arholiadau | Canolfannau wedi'u cofrestru gyda CBAC – Mynediad i'r Porth | Cyhoeddi ar wefan gyhoeddus CBAC a WJEC Eduqas |
|---|---|---|
| Ionawr | Papurau cwestiynau ar gael ddiwrnod ar ôl pob cyfres arholiadau. Bydd y cynlluniau marcio ar gael ar ddiwrnod y canlyniadau. | Rhwng 1 a 28 Chwefror, y flwyddyn ar ôl i'r arholiad gael ei sefyll. |
| Mehefin | | Rhwng 1 a 31 Gorffennaf, y flwyddyn ar ôl i'r arholiad gael ei sefyll. |
| Tachwedd | | Rhwng 1 a 31 Rhagfyr, y flwyddyn ar ôl i'r arholiad gael ei sefyll. |

### Staff mewn canolfannau a gofrestrwyd gyda CBAC

Bydd papurau cwestiynau ar gael ar y diwrnod ar ôl diwedd pob cyfres arholiadau a bydd y cynlluniau marcio ar gael ar ddiwrnod y canlyniadau. Gall canolfannau cofrestredig lawrlwytho'r papurau cwestiynau a chynlluniau marcio hyn yn rhad ac am ddim o Borth CBAC. Mae'r wybodaeth ar gael i ganolfannau cofrestredig fel adnodd i'w ddefnyddio'n fewnol cyn ei bod ar gael yn gyhoeddus. Mae'n hanfodol felly nad yw staff canolfannau'n rhannu delweddau o ddeunyddiau asesu CBAC ar lwyfannau cyhoeddus, megis safleoedd cyfryngau cymdeithasol, cyn eu bod yn cael eu cyhoeddi ar wefan gyhoeddus CBAC. Gellir rhannu cyn-bapurau cwestiynau  a chynlluniau marcio hefo ymgeiswyr mewn perthynas â Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau. Rhaid i athrawon a staff eraill y ganolfan fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd trefniadau'n gwrthdaro yn ogystal â'r angen i sicrhau diogelwch y papurau cwestiynau nes bod pob ymgeisydd wedi cwblhau'r arholiad.

### Myfyrwyr a rhieni

Mae papurau cwestiynau ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC ychydig dros flwyddyn ar ôl i'r arholiad gael ei sefyll. Mae hyn yn galluogi canolfannau i ddefnyddio'r deunyddiau at ddibenion asesu ac i baratoi myfyrwyr ar gyfer asesiadau byw ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Yn weithredol o Fedi 2025

**Ymgeiswyr Preifat**

Ymgeiswyr preifat yw ymgeiswyr sy'n dilyn cwrs astudio yn annibynnol ond sy'n sefyll arholiad ac/neu asesiad yn un o ganolfannau arholiadau cymeradwy CBAC (ysgol neu goleg). Os nad yw'r papur a'r cynllun marcio diweddaraf wedi'u cyhoeddi, gall ymgeiswyr preifat gysylltu â'u canolfan gofrestru i ofyn a allan nhw ddarparu'r papur a'r cynllun marcio diweddaraf i gynorthwyo â'r adolygu. Os nad yw'r ganolfan gofrestru yn gallu darparu'r wybodaeth, dylai ymgeiswyr preifat anfon e-bost at ymgeiswyrpreifat@cbac.co.uk. Ni fyddwn yn rhyddhau papurau i ymgeiswyr preifat oni bai eu bod wedi'u cofrestru gan ganolfan.

**Adroddiadau arholwyr**

Mae adroddiadau arholwyr ar gael i bawb drwy wefan gyhoeddus CBAC a WJEC Eduqas ar 1 Medi ar gyfer pob cymhwyster yng Nghyfresi Tachwedd ac Ionawr. O ran y  gyfres haf, mae adroddiadau arholwyr y pynciau canlynol: TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Mathemateg - Rhifedd a TGAU Saesneg Iaith ar gael ar ddiwrnodau'r canlyniadau. Bydd adroddiadau arholwyr yr holl gymwysterau eraill ar gael ar 30 Medi.

**Manylebau**

Mae copïau electronig y gellir eu lawrlwytho ar gael yn rhad ac am ddim ar dudalennau'r pwnc/cymhwyster. Bydd fersiynau electronig o'r manylebau ar gael ar y wefan cyn gynted ag y byddant yn cael eu hachredu. Y fersiynau hyn fydd y rhai mwyaf diweddar.

**Canllawiau Addysgu**

Mae dogfennau Canllawiau Addysgu ar gael ar y wefan yn rhad ac am ddim (gweler y rhestri Dogfennau ar y tudalennau Pwnc/Lefel).

**Hawlfraint**

Mae croeso i ysgolion a cholegau ddefnyddio dogfennau yn yr ystafell ddosbarth ac ar gyfer gwaith adolygu preifat ymgeiswyr ar gyfer arholiadau, gan gydnabod CBAC fel y bo'n briodol os ydynt yn cael eu hatgynhyrchu. Os yw canolfannau am gopïo dogfennau i'w defnyddio y tu allan i'w canolfannau (boed yn electronig neu ar ffurf copi caled), rhaid iddynt wneud cais i CBAC am ganiatâd ysgrifenedig.

Sylwer: mae rhai papurau cwestiynau'n cynnwys deunydd a gafwyd gan drydydd partïon, megis erthyglau papur newydd, ffotograffau a diagramau. Efallai na fydd CBAC bob amser yn gallu cadarnhau hawlfraint ar gyfer defnyddio deunyddiau o'r fath y tu hwnt i'r arholiadau, ac am y rheswm hwn efallai na fydd rhai papurau neu ddarnau ar gael yn electronig.